Byw yn fwy deallus



Cynnwys

Dechrau arni	tudalen 3
Talu Wrth Fynd Deallus – y pethau pwysig	tudalen 4,5
Dangosyddion cartref	tudalen 6,7
Awgrymiadau Ynni - arbed eich arian a'n planed	tudalen 8-11

Sganiwch y Cod QR hwn a llwythwch i lawr ein ap rhyngweithiol newydd.

Mae'r ap yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol ac yn darparu cymorth a chefnogaeth gyda'ch Mesurydd deallus newydd.

Rydyn ni'n falch iawn eich bod chi wedi gwneud y dewis deallus a gobeithio y byddwch chi'n mwynhau bod â rheolaeth ar eich egni

Croeso i'ch mesurydd deallus newydd

Mae'r teclyn bach defnyddiol hwn yn siarad yn uniongyrchol â'ch mesurydd deallus gan roi diweddariadau cyson i chi ar yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio a beth mae'n ei gostio.*

Gallwch hyd yn oed osod cyllideb i chi'ch hun a bydd eich dangosydd cartref yn dweud wrthych a ydych ar y trywydd iawn

Dyma sut i gadw'ch dangosydd cartref yn gweithio'n dda

Wedi colli'r cysylltiad?

- Symudwch eich dangosydd cartref yn agosach at y mesurydd.

Allan o bŵer?

- Cadwch eich dangosydd cartref wedi'i blygio i mewn i soced. Mae angen pŵer prif gyflenwad ar eich teclyn i weithredu.

Angen Ailosod?

Fel gyda phob dyfais dechnegol, weithiau maen nhw'n rhoi'r gorau i weithio ac angen ychydig o hwb. Trowch hi i ffwrdd, datgysylltu o'r ffynhonnell pŵer, tynnu'r batris allan - aros munud - yna ailadrodd y broses i'r gwrthwyneb. Sylwch y gall gymryd hyd at 24 awr i'ch gwybodaeth o ddefnydd ymddangos.

Dal yn cael problemau?

Edrychwch ar ein gwefan am ragor o awgrymiadau datrys problemau yn **edfenergy.com/smart-meters/using-a-smart-meter**

Eich dewis chi……

Mae gan eich mesurydd deallus newydd ddau fodd a byddwch wedi gwneud eich dewis wrth drefnu apwyntiad:

- Talu Wrth Fynd Deallus (lle rydych yn ychwanegu at eich mesurydd ar eich ffôn neu yn y siop)
- Modd credyd deallus lle rydych yn parhau i dalu biliau e.e. trwy ddebyd uniongyrchol

Mae'r ddwy dudalen nesaf ar gyfer cwsmeriaid talu wrth fynd deallus yn unig. Os ydych yn gwsmer credyd deallus ewch yn syth i dudalen 6

* Mae eich gwybodaeth drydan yn diweddaru bob 30 eiliad a'ch nwy bob 30 munud.

Croeso i ‘Talu Wrth Fynd’ Deallus!

Rydym mor falch eich bod yn ymuno.

Byddwn yn anfon e-bost neu’n anfon neges destun atoch yn ystod y dyddiau nesaf i roi gwybod i chi pan fydd eich cyfrif newydd yn barod. Yna mae’n bryd gwneud taliad Atodol. Peidiwch â phoeni y bydd eich cyflenwad yn aros yn gysylltiedig tra byddwn yn gosod eich cyfrif.

Balans presennol ar eich hen fesurydd? Byddwn yn trosglwyddo hwn yn awtomatig, fel arfer o fewn 48 awr. O bryd i’w gilydd gall gymryd hyd at 10 diwrnod. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi pan fydd hyn wedi’i gwblhau.

Taliadau atodol

Gyda’r Ap EDF neu yn FyNghyfrif ar eich dyfais gallwch chi:

- Weld eich balans a gwneud taliad atodol
- Arbed manylion eich cerdyn er mwyn gallu talu’n hawdd
- Osod taliadau atodol awtomatig a rhybuddion balans isel

Mae’n hawdd – lawrlwythwch yr ap EDF o’r App Store neu Google Play. Neu mewngofnodwch i edfenergy.com/myaccount gan ddefnyddio eich rhif cyfrif newydd. Heb gofrestru eto? Dim ond ychydig funudau mae’n ei gymryd.

Ffyrdd eraill o wneud taliadau atodol

Drwy ffonio ein llinell ffôn awtomataidd ar 0333 009 7111^ neu mewn unrhyw PayPoint gan ddefnyddio eich cerdyn Taliadau Atodol neu eich Rhif Adnabod Taliadau Atodol yn unig

Eich cadw chi mewn cysylltiad: Mae gennym ni ymagwedd sy’n gyfeillgar i gwsmeriaid at ein mesuryddion clyfar. Yn y bôn, mae hyn yn golygu na fyddwch yn colli cyflenwad ‘y tu allan i oriau gwaith’ nac tan y diwrnod gwaith nesaf. Byddwch yn ad-dalu hwn y tro nesaf y byddwch yn gwneud taliad atodol ar eich mesurydd.

Sut mae’ch credyd yn cael ei wario: Mae’n talu am yr ynni a ddefnyddiwch, costau sefydlog dyddiol ac unrhyw ad-daliadau dyled

Mynd i ffwrdd? Gwnewch yn siŵr bod digon o gredyd i gadw eich offer ymlaen (fel eich rhewgell). Naill ai lawrlwythwch ein ap fel y gallwch wneud taliadau atodol o unrhyw le. Neu gwnewch daliad atodol cyn i chi fynd.

Dim mwy o filiau: Ni fyddwch yn derbyn biliau mwyach, ond gallwch weld eich hanes taliadau atodol trwy FyNghyfrif.

Os oes arnoch arian i ni: Gallwch ddefnyddio talu wrth fynd i ad-dalu unrhyw ddyled sydd gennych. Rydym yn ymestyn eich taliadau dros gyfnod o amser a swm y gallwch ei fforddio, yn ddi-log.

Angen mwy o gymorth? Ewch ar-lein yn edfenergy.com/payg lle byddwch chi’n dod o hyd i lawer o gefnogaeth gan gynnwys fideos a Chwestiynau Cyffredin

^ Mae galwadau i rifau DU cyfan wedi’u cynnwys mewn unrhyw gynllun galwadau cynhwysol a allai fod gennych. Os nad oes gennych gynllun galwadau cynhwysol, codir tâl ar gyfradd genedlaethol am alwadau. Holwch eich darparwr gwasanaeth os ydych yn ansicr

‘Talu Wrth Fynd’ Deallus gan ddefnyddio’ch dangosydd cartref

Bydd eich dangosydd cartref yn dangos eich balans credyd cyfredol ar y sgrin hafan. Mae eich balans trydan yn diweddaru bob ychydig eiliadau a’ch mesurydd nwy bob 30 munud






Rhybudd credyd isel

Bydd eich dangosydd cartref yn dangos neges rhybudd ar eich sgrin hafan.

Angen credyd brys? Mae hwn yn cael ei storio ar eich mesurydd rhag ofn na allwch ychwanegu ato am unrhyw reswm. Byddwch yn talu hwn yn ôl pan fyddwch yn ychwanegu arian nesaf. Gallwch actifadu hwn pan fydd eich balans credyd yn £1 neu lai. Gallwch ddod o hyd i gredyd brys (£10 am bob tanwydd) yn y ddewislen ar eich dangosydd cartref

Taliad Atodol heb weithio? Os nad yw’r credyd yn cyrraedd eich mesurydd trydan gallwch ei ychwanegu â llaw ar eich dangosydd cartref gan ddefnyddio’r Cyfeirnod Trafodiad Unigryw (UTRN) 20 digid. Gallwch ddod o hyd i’r rhif hwn ar eich derbynneb taliad atodol, neges gadarnhau neu FyNghyfrif o dan Hanes Taliadau Atodol.

Sgrin IHD GEO



Sgrin IHD Chameleon



Ar gyfer mesuryddion nwy ewch i **edfenergy.com/myutrn** i weld sut i roi eich UTRN yn syth ar eich mesurydd

Cyflenwad wedi’i ddatgysylltu? Bydd angen i chi ychwanegu ato yn gyntaf ac yna dewis ‘Activate Supply’ neu ‘Enable supply’ ar eich dewislen dangosydd cartref i ailgysylltu eich cyflenwad trydan.

I ailgysylltu eich cyflenwad nwy ar eich mesurydd ewch i **edfenergy.com/payg** lle byddwch yn dod o hyd i Gwestiynau Cyffredin defnyddiol

Eich dangosydd cartref Geo Trio II



1 Cryfder signal

Yn dangos a yw eich dangosydd cartref yn ddigon agos at eich mesurydd.

2 Ynni nawr

Mae'r sgrin Ynni nawr wedi'i rhannu'n hanner, gyda'r ochr chwith yn ymwneud â'r defnydd o drydan a'r ochr dde yn ymwneud â nwy.

Dim ond y mathau o ynni sydd ar gael bydd yn cael eu dangos - ni fydd y fflam nwy yn cael ei dangos os nad oes gennych chi fesurydd deallus nwy, er enghraifft.

3 Ynni heddiw

Gweler yr hyn yr ydych wedi'i wario hyd yn hyn heddiw, ac os ydych wedi gosod cyllideb gallwch weld sut yr ydych yn gwneud yn erbyn hyn.

Bydd yn rhagweld, yn seiliedig ar eich defnydd ar yr un diwrnod â'r wythnos flaenorol, a fyddwch chi o fewn y gyllideb ar gyfer y diwrnod. Mae'r cylch allanol yn llenwi wrth i chi ddefnyddio ynni, gan roi gwybod i chi os ydych chi'n dod yn agos neu'n mynd y tu hwnt i'ch cyllideb

4 Dangosydd cost

Yn dangos eich costau. Defnyddiwch y botwm 'Selection' i newid rhwng £/awr (diofyn) neu egni kW.

5 Panel Rheoli

Defnyddiwch hwn i lywio eich dangosydd cartref.

6 Golau traffig

Yn dangos i chi faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae gwyrdd yn wych. Mae ambr yn golygu bod gennych chi ychydig o bethau ymlaen. Mae coch yn golygu ei bod hi'n bryd diffodd rhywbeth!

Eich dangosydd cartref Chameleon 3



1 Cryfder signal

Yn dangos a yw eich dangosydd cartref yn ddigon agos at eich mesurydd.

2 Batri

Cofiwch blygio'ch dangosydd cartref i mewn a'i gadw wedi'i wefru. Mae yna ddau symbol batri. Mae un yn dangos 'batri isel', a'r llall yn dangos a yw 'prif gyflenwad wedi'i gysylltu'. Ni ddylent ymddangos ar yr un pryd.

3 Marciwr cyllideb

Yn dangos yr uchafswm rydych chi am ei wario bob dydd.

4 Dangosydd cost

Yn dangos eich costau. Defnyddiwch y bysellau saeth yn y panel rheoli i sgrolio yn ôl trwy gostau ar gyfer dyddiau blaenorol. Dangosir defnydd (kWh) ar y dangosydd isaf. Bydd hyn yn cyfnewid wrth edrych ar faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio.

5 Deial cyllideb

Gweld faint o'ch cyllideb ddyddiol rydych chi wedi'i ddefnyddio.

6 Gwedd tanwydd

Gweld eich defnydd o drydan, defnydd o nwy - neu'r ddau.

7 Panel rheoli

Defnyddiwch hwn i reoli eich dangosydd cartref.

8 Golau traffig

Yn dangos i chi faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae gwyrdd yn wych. Mae ambr yn golygu bod gennych chi ychydig o bethau ymlaen. Mae coch yn golygu ei bod hi'n bryd diffodd rhywbeth! Cofiwch, mae eich dangosydd cartref yn cymryd ychydig ddyddiau i ddysgu beth sy'n arferol i chi - felly cadwch lygad ar yr hyn y mae'r golau traffig yn ei ddweud wrthych dros yr wythnosau i ddod.

Arbed yn ddeallus

Gallech arbed tua £300 y flwyddyn drwy ddilyn yr awgrymiadau cyflym a hawdd hyn. Gorau oll, ni fyddant yn costio ceiniog i chi.

Cofrestrwch yn EnergyHub trwy FyNghyfrif i weld yn union sut rydych chi'n defnyddio'ch ynni ac i gael awgrymiadau i arbed arian

£95

Treuliwch funud yn llai yn y gawod ac ychwanegwch ben cawod awyru

£30

Golchwch eich llestri mewn powlen yn hytrach nag o dan dap dŵr sy'n rhedeg

£5

Defnyddiwch y peiriant golchi dim ond pan fydd gennych lwyth llawn a golchwch ar 30°

£30

Defnyddiwch rac sychu yn lle peiriant sychu dillad



£13

Trowch eich goleuadau i ffwrdd pan fyddwch chi'n gadael yr ystafell

Caewch eich llenni yn y nos ac osgoi gorchuddio rheiddiaduron â dillad

£80

Trowch eich thermostat i lawr un radd

£30

Peidiwch â gadael offer trydanol a gwefrwyr yn y modd segur

These estimated annual savings come from the Energy Savings Trust website. They're based on an average three-bedroom semi-detached home. If you'd like to find out more, go to energysavingtrust.org.uk.

Eco glyfar

Pe bai pawb yn y wlad yn cael mesurydd deallus, gallem arbed digon o ynni i bweru pob cartref ym Manceinion, Caerdydd ac Aberdeen am flwyddyn gyfan. Felly diolch am wneud eich rhan.

Help gyda mesurau arbed ynni

Efallai y byddwch yn gymwys i gael grant i'ch helpu i osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eich cartref. Ewch i edfenergy.com/smartheating am gyngor ar insiwleiddio a dewisiadau gwresogi carbon isel.

£200 Gosod boeler ynni effeithlon newydd

£145 Gall inswleiddio waliau ceudod arbed hyd at 640kg o garbon

Gallai offer ynni-effeithlon A+++ arbed hyd at 580kg o garbon dros eu hoes

Gallai dewisiadau gwresogi hynod effeithlon fel pympiau gwres arbed tua 2 dunnell o garbon

Gallai uwchraddio i wresogyddion storio clyfar arbed hyd at £390 y flwyddyn*



£130 Inswleiddio eich llofft ac arbedwch hyd at 50kg o garbon

£110 Gosod gwydr dwbl gradd A

£75 Cyfnewid eich falfiau rheiddiadur am rai thermostatig

£35 Defnyddio bylbiau golau LED neu arbed ynni

*https://www.dimplex.co.uk/sites/default/files/Running_Cost_Report_2014.pdf

These estimated annual savings come from the Energy Savings Trust website. They're based on an average three-bedroom semi-detached home. If you'd like to find out more, go to energysavingtrust.org.uk.

https://energysavingtrust.org.uk/advice/air-source-heat-pumps/ - based on 4 bed home

Mae'n dda gwybod bod cymorth ychwanegol wrth law

Gwasanaethau Blaenoriaeth

Does dim ots pa mor dda ydyn ni ar ben pethau – o bryd i'w gilydd mae angen ychydig o help ychwanegol arnom ni i gyd. Ac yma yn EDF, rydym am wneud yn siŵr eich bod yn gwybod ble i ddod o hyd iddo. Felly os ydych yn poeni am filiau neu reoli eich arian, angen derbyn eich cyfathrebiadau mewn print bras, ar gryno ddisg neu mewn Braille, neu eisiau gwneud yn siŵr nad ydych yn colli allan ar unrhyw fudd-daliadau, rydyn ni yma i roi help llaw.

I gael gwybod mwy am ein Gwasanaethau Blaenoriaeth ac i gofrestru ewch i **edfenergy.com/ps** neu ffoniwch ni ar **0800 269 450** (minicom **0800 096 2929**). Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8yb i 8yh a dydd Sadwrn 8yb i 2yp.

Cymorth annibynnol gan Cyngor ar Bopeth

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Plymouth i roi cyngor annibynnol i'n cwsmeriaid ledled y wlad ar reoli eu harian. Gallwch eu ffonio ar 0808 223 1133, neu 0300 330 0519 o ffôn symudol.

Eich darlleniadau mesurydd hen - er gwybodaeth yn unig:

	Manylion Mesurydd Trydan	Manylion Mesurydd Nwy
MPAN / MPRN		
Cyfradd 1		
Cyfradd 2		
Cyfradd 3		
Cyfradd 4		
Balans Credyd:		
Balans Dyled:		

Cefais gyngor a dangoswyd cerdyn i mi gan fy ngosodwr, yn fy nghynghori i ddiffodd yr holl offer sensitif. Ie (ticiwch)	

Llofnod Cwsmer:	Dyddiad:

smart meters
Join the energy revolution

Smart Energy GB yw'r sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan y llywodraeth i redeg yr ymgyrch genedlaethol ar gyfer cyflwyno mesuryddion clyfar. Mae'n gweithio ochr yn ochr â chyflenwyr ynni, gan gynnwys EDF, i wneud yn siŵr bod gan bawb fynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am fesuryddion clyfar. Ewch i smartenergyGB.org i ddarganfod mwy.

R1201.11.21.V8

Mae EDF Energy yn enw masnachu a ddefnyddir gan EDF Energy Customers Ltd, Reg. 02228297 y mae ei Swyddfa Gofrestredig yn 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ, corfforedig yng Nghymru a Lloegr.